

# PWYLLGOR PENODI AELODAU

**22 GORFFENNAF 2022**

**PRESENNOL** Councillor M.J.A. Lewis (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

W.R.A. Davies

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

J.M. Charles

W.T. Evans

T.M. Higgins

S.L. Rees

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn y Siambr):**

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion].

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod (Yn rhithwir):**

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 10:00yb - 10:16yb**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Cundy.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

**3. LLOFNODI COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALWYD AR Y 14 GORFFENNAF 2021**

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021, gan eu bod yn gofnod cywir.

#### **4. CYNRYCHOLAETH AR GYRFF ALLANOL**

Ystyriodd y Pwyllgor, o ganlyniad i'r Etholiadau Llywodraeth Leol diweddar, restr o Gyrrff Allanol oedd wedi'u hysbysu er mwyn penderfynu a ddylai'r Cyngor wneud/parhau i wneud penodiadau i'r cyrrff hynny. Roedd adolygiad cychwynnol o'r rhestr o gyrrff allanol wedi'i gynnal er mwyn canfod statws y sefydliadau presennol ac enwebiadau gan y grwpiau Gwleidyddol nad oeddent wedi'u penodi gan y Cyngor na'r Cabinet ac a atodir i'r adroddiad yn Atodiad A, ynghyd â'r dogfennau cyfarwyddyd a luniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a atodir i'r adroddiad yn Atodiad B ac C.

Wrth ystyried y rhestr o enwebiadau i gyrrff allanol, tynnwyd sylw at y ffaith bod camgymeriad yn yr adroddiad mewn perthynas ag enwebiad y Grŵp Llafur ar gyfer Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda.

Fel rhan o'r dull adolygu i gynrychiolwyr adrodd yn ôl ar waith pob corff allanol, ceisiodd yr adroddiad gyflwyno dull 'adrodd yn ôl' trwy gwblhau'r ffurflen Cyrff Allanol - Adroddiad Blynyddol y Cynghorwyr 2022/23 a atodir i'r adroddiad yn Atodiad D.

#### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 4.1 yn dilyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022, yn amodol ar ddiwygio enwebiad y Grŵp Llafur ar gyfer Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, bod enwebiadau'r grŵp gwleidyddol i gyrrff allanol fel y manylir yn Atodiad A yn cael eu penodi;**
- 4.2 bod y ffurflen adrodd yn ôl a atodir i'r adroddiad yn Atodiad D yn cael ei chymeradwyo, a bod angen i Aelodau a benodwyd i wasanaethu ar gyrrff allanol adrodd yn ôl ar gyfarfodydd drwy lenwi'r ffurflen.**

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**